# Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**2015 dccc 6**

*Amrywiol*

**42 Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr**

(1) Mae adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (dyletswydd i gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2) (awdurdod lleol i gynnal arolwg ar ôl pob etholiad cyffredin), yn lle "ar ôl pob" rhodder ", neu drefnu i gynnal arolwg, mewn perthynas â phob".

(3) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Yn achos etholiad cyffredin caniateir i arolwg gael ei gynnal—

(a) yn llwyr ar ôl yr etholiad cyffredin, neu

(b) drwy ofyn i'r ymgeiswyr i gael eu hethol i swydd cynghorydd ateb y cwestiynau rhagnodedig cyn yr etholiad cyffredin a chrynhoi'r wybodaeth a ddarparwyd wedi hynny."

(4) Yn is-adran (5) (dim dyletswydd i ddarparu gwybodaeth) yn lle "gynghorydd neu ymgeisydd na lwyddodd i gael ei ethol i swydd cynghorydd" rhodder "unrhyw unigolyn".

(5) Hepgorer adran (6) (awdurdod lleol i wneud trefniadau i wybodaeth gael ei darparu yn ddienw).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 42 mewn grym ar 25.1.2016, gweler **a. 46(1)**

## 43 Cynigion a gyflwynwyd cyn i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 gychwyn

Yn adran 74(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (adolygiadau o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n mynd rhagddynt ar adeg cychwyn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013), mewnosoder ar y diwedd "ac at ddibenion cynigion a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru cyn yr adeg honno."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 43 mewn grym ar 25.1.2016, gweler **a. 46(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, Croes Bennawd: Amrywiol.